CYNLLUN DATBLYGU

Fersiwn 2.0

“Symud Ymlaen”

Cyflwyniad

A: Cefndir

B: Amcanion

C: Mentrau

Atodiad 1 – Crynodeb Gweithredu (fersiwn 2)

Atodiad 2 – Cynllun Cyfleusterau (fersiwn 2)

Atodiad 3 – Cymariaethau Ystadegol

CYFLWYNIAD

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu amcanion datblygu Undeb Golff Cymru (UGC) ac Undeb Golff Menywod Cymru (UGMC) ar y cyd. Mae hefyd yn tanlinellu'r prif fentrau sydd ynghlwm â'r amcanion hyn, ynghyd â'r prif dargedau perthnasol.

Bydd yr amcanion hyn yn cynyddu nifer y to iau a'r merched sy'n cymryd rhan, yn cynorthwyo i gadw'r chwaraewyr hyn, yn hyrwyddo golff fel gêm i'w chwarae a'i mwynhau gan bawb, yn gwella'r ddarpariaeth o fathau arbennig o gyfleusterau ac yn hyrwyddo enw da Cymru o fewn y byd golff rhyngwladol.

Maent yn ymwneud â holl sbectrwm byd golff, o'r chwaraewyr newydd ieuengaf hyd at y goreuon.

Mae'n werth ailadrodd hynna:

Datblygu Golff yng Nghymru – "Symud Ymlaen o'r sylfaenol hyd at y safonol"

Tra fu'r cais llwyddiannus i groesawu Cwpan Ryder 2010 i Gymru yn gatalydd sylweddol gyda golwg ar hyrwyddo'r amcanion hyn, rhaid nodi eu bod yn gynigion y bu cyrff Golff yng Nghymru'n awyddus i'w gweithredu ers amser maith. Bu'r partneriaethau gwaith a ffurfiwyd yn ystod y broses o gyflwyno'r cais yn gymorth i wireddu'r dyheadau hyn.

Dyma'r ail fersiwn o'r ddogfen hon, bydd yn parhau i fod yn ddogfen weithredol hyd at 2007/8 a bydd gofyn ei diwygio'n llwyr tuag at diwedd y cyfnod hwnnw. Mae'r awydd a nodwyd yn gynharach (fersiwn 1.0 o'r ddogfen hon) i ragweithio mwy gyda golffwyr sydd yn 'oedolion' (yn arbennig y categori 20-40 mlwydd oed) wedi'i wireddu o ganlyniad i'r cynlluniau dechreuwyr ar gyfer Merched sy'n cael eu rhedeg gan y swyddogion datblygu (er bod hynny'n golygu bod rhywfaint yn llai o ddibyniaeth ar y swyddogion i redeg cynlluniau Tri-Golff, sydd ynddo'i hun yn ddibynnol ar Tri-Golff yn dod yn un o Gampau'r Ddraig).

Cyfeiriadau:
Dogfen gais Cwpan Ryder Tîm Cymru
Dogfen strategaeth UGC/UGMC 2001
Arweiniad UGC i Golff Iau yng Nghymru ar gyfer Clybiau

A: CEFNDIR

Mae amcanion y rhaglen ddatblygu sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon yn atgyfnerthu'r cysyniad ei bod yn un hollgynhwysfawr ar gyfer y chwaraewyr ieuengaf hyd at y goreuon

Lle oedden' ni yn 2001?

Cyfranogiad		
Cyfleoedd Golff i'r oedran iau	2001	
	108,000	
Cyfranogiad Iau (11-16 oed)	1999 **5.5%**	2001 **7.2%**
Cyfranogiad Oedolion	1999 **3.7%**	2001 **3.0%**

Gwirfoddolwyr
Ychydig (os unrhyw) Arweinwyr Golff Iau **cymwysedig**

Aelodau	Canlyniadau Perfformio
Dynion 54,286	2il GC Rhyngwladol 8fed Tîm Ewrop. 1 chwaraewr yn nhîm PF&I. Chwaraewr gorau ar y Brif Daith (fesul pen y boblogaeth) 4 chwaraewr ar y Daith Sialens
Bechgyn 7,328	3ydd GC Rhyngwladol 3ydd Tîm Ieuenctid Ewrop. 9fed Tîm Bechgyn Ewrop. 1 chwaraewr yn nhîm PF&I
Menywod 9,449	4ydd GC Rhyngwladol 12fed Tîm Ewrop. 1 chwaraewr yn nhîm PF&I **?** chwaraewr proff. ar y Brif Daith
Merched 692	4ydd GC Rhyngwladol Tîm Merched Ewrop. 13eg Tîm Ieuenctid Ewrop.

Lle ydyn' ni yn 2003?

Cyfranogiad		
Cyfleoedd Golff i'r oedran iau*	2003	
	200,000	
Cyfranogiad Iau (11-16 oed)	2003 **10.1%**	
Cyfranogiad Oedolion	2003 **3.2%**	

Gwirfoddolwyr
Dros **220** o Arweinwyr Golff Iau cymwysedig

Aelodau	Canlyniadau Perfformio
Dynion 53,951	**20pt+**GC Rhyngwladol **8 Gorau** Tîm Ewrop. **15%** sgwad PF&I **3 Gorau** ar y Brif Daith fesul pen y boblogaeth **6** chwaraewr ar y Daith Sialens
Bechgyn 7,535	**18pt**+ GC Rhyngwladol **8 Gorau** Tîm Ieuenctid Ewrop. **8 Gorau** Tîm Bechgyn Ewrop. **1** chwaraewr yn nhîm PF&I
Menywod 8,970	**2 Orau** GC Rhyngwladol **5 Gorau** Tîm Ewrop. **3** chwaraewr yn nhîm PF&I **?** chwaraewr proff. ar y Brif Daith
Merched 760	**15pt** GC Rhyngwladol **2il** Tîm Merched Ewrop. **?** Tim Ieuenctid Ewrop.

Lle ydyn' ni am fod yn 2008?

Cyfranogiad		
Cyfleoedd Golff i'r oedran iau	2008	
	250,000	
Cyfranogiad Iau (11-16 oed)	2008 **12%**	
Cyfranogiad Oedolion	2008 **4.0%**	

Gwirfoddolwyr
Dros **600** o Arweinwyr Golff Iau cymwysedig

Aelodau	Canlyniadau Perfformio
Dynion 55,000	**20pt+**GC Rhyngwladol **8 Gorau** Tîm Ewrop. **15%** sgwad PF&I **3 Gorau** ar y Brif Daith fesul pen y boblogaeth. 7 chwaraewr ar y Daith Sialens
Bechgyn 8,300	**18pt**+ GC Rhyngwladol **8 Gorau** Tîm Ieuenctid Ewrop. **8 Gorau** Tîm Bechgyn Ewrop. **1** chwaraewr yn nhîm PF&I
Menywod 9,800	**2 Orau** GC Rhyngwladol **5 Gorau** Tîm Ewrop. **3** chwaraewr yn nhîm PF&I **?** chwaraewr proff. ar y Brif Daith
Merched 1,100	**15pt** GC Rhyngwladol **5 Gorau** Tîm Merched Ewrop. **?** Tîm Ieuenctid Ewrop.

B: AMCANION

Cynigir dau brif amcan

1 Mwy o Olffwyr (yn enwedig oedran Iau a Menywod)

2 Gwell Golffwyr

Diagram yn dangos yr Amcanion



C: MENTRAU

Mentrau sydd ynghlwm â'r 2 Brif Amcan



Prif Amcan DGC 1	Mwy o Olffwyr

- Bechgyn a Merched – 250,000 o gyfleoedd i blant chwarae golff yn flynyddol*
- Bechgyn – cynnydd blynyddol o 5% yn aelodaeth clybiau bechgyn iau
- Merched – cynnydd blynyddol o 10% yn aelodaeth clybiau merched iau
- Menywod – cynnydd o 5% yn aelodaeth clybiau menywod

1. **Menter Canolfannau Dechreuwyr**

Erbyn hyn mae gan Gymru 40 o Ganolfannau Dechreuwyr fel y'u diffinir gan y Sefydliad Golff. Bydd swyddogion datblygu DGC yn parhau i weithio gyda'r canolfannau hyn er mwyn sefydlu beth a sut maen nhw'n gwneud yn nhermau datblygiad a phenderfynu p'un ai i'w dileu nhw neu greu rhai ychwanegol.

- **Model Clwb Iau** yn seiliedig ar y syniad o farc siarter yn y 'Cyfarwyddyd i Glybiau ar Golff Iau yng Nghymru' y bwriedir ei gynhyrchu
- Bydd y Model yn cael ei ddosbarthu i'r holl gyfleusterau yn ogystal â phanelau Cist Gymunedol Sportlot ar gyfer ei ddefnyddio i asesu ceisiadau'r clybiau am wobrau.
- Caiff nawdd ei ddyrannu i'r Canolfannau Dechreuwyr a ddewisir yn gyfnewid am waith datblygu penodol e.e. Tri-golff mewn ysgolion lleol, a chynnydd bwriadol yn y nifer o ferched yn arbennig

2. **Clybiau Iau Talu a Chwarae**

Clybiau Aelodaeth Iau newydd

Bwriedir annog y mwyafrif o'r cyfleusterau 'Talu a Chwarae' presennol i ddatblygu trefn ymaelodi. Bydd DGC yn cydnabod y cyfleusterau hyn yn swyddogol fel clybiau. Bydd y broses o esgor ar y clybiau iau hyn yn derbyn cymorth grantiau trwy gyfrwng yu cyfleusterau hyn:

- Bydd DGC yn cydlynu gwaith rhwng y swyddog datblygu chwaraeon lleol, perchnogion y cyfleusterau, y cynrychiolydd SGP lleol, Swyddog GDLl CChC ac ysgolion lleol
- Bydd y rhaglen a ariannir yn weithredol am gyfnod o tua 6 wythnos, yn dechrau yn ddelfrydol yn ystod gwyliau ysgol.
- Bydd y rhaglen:
  - Yn cynnwys cyfres o wersi
  - Yn cynnwys chwarae'r cwrs, gan ddefnyddio'r cynllun Pasport Golff Iau, gydag oedolion neu chwaraewyr iau hŷn fel mentoriaid
  - Yn creu'r 'teimlad' o fod mewn clwb go iawn trwy ddefnyddio tagiau bagiau, tystysgrifau a.y.b.
  - Ar ddiwedd cyfnod penodol, gwahoddir rhieni i gyfarfod a dangosir iddyn nhw y posibilrwydd o sefydlu clwb iau go iawn yn y cyfleuster. Yn bennaf, sut i wneud hynny a pham, yn ogystal ag enghreifftiau o arfer dda sy'n bodoli eisoes.

3. **Tri-Golff**

Pecyn datblygu a gynlluniwyd gan y Sefydliad Golff mewn cydweithrediad â'r Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid er mwyn cyflwyno golff i blant oedran cynradd (7 – 11 oed).

Mae'n ddelfrydol fel un o Gampau'r Ddraig ac er mwyn cyrraedd y camau a'r targedau canlynol mae'r fenter hon yn dibynnu'n helaeth ar gael ei mabwysiadu gan gynllun Campau'r Ddraig.

Mae'r tri cam fel a ganlyn:

a) Cyrsiau Cyflwyno

Cwrs dwyawr sy'n rhoi'r grym a'r gallu i wirfoddolwyr i gynnal sesiynau tri-golff diogel, hwyliog a phleserus ar gyfer plant. Fe'u cynhelir gan swyddogion datblygu DGC neu aelodau o'r SGP sydd wedi'u hyfforddi gan swyddogion datblygu DGC a swyddogion Campau'r Ddraig – cynhelir dros 20 o gyrsiau cyflwyno'n flynyddol gan greu 200 o wirfoddolwyr hyfforddedig.

b) Sesiynau blasu
Digwyddiad penodol, yn cynnwys mwy nag un ysgol, sy'n dangos potensial a buddiannau Tri-Golff i'r athrawon a'r gwirfoddolwyr.
Dilynir y digwyddiadau hyn gan gyrsiau cyflwyno sy'n hyfforddi athrawon a gwirfoddolwyr er mwyn iddyn nhw fedru dal ati i redeg sesiynau neu glybiau sy'n dilynol (gweler c. isod) Gwahoddir y trefnwyr iau o'r clybiau lleol i bob sesiwn Blasu.

c) Clybiau ar ôl ysgol
Bydd swyddogion DGC a Champau'r Ddraig yn gweithio gyda swyddogion datblygu chwaraeon yr awdurdod lleol a chlybiau lleol er mwyn sefydlu clybiau ar-ôl -ysgol rheolaidd, un ai ar safle'r ysgol neu yn y clybiau.

Ceisir sicrhau nawdd ar gyfer y tri cham o Gist Gymunedol Sportlot yn bennaf, ond hefyd trwy gyfrwng rhaglen chwaraeon tu allan i oriau ysgol y Gronfa Cyfleoedd Newydd (NOF), Grantiau Llai Sportlot a nawdd canolog Cyngor Chwaraeon Cymru.

Un o'r prif gyfryngau gyda golwg ar ddatblygiadau o'r fath yw Mudiad yr Urdd. Mae swyddogion datblygu yr Urdd wedi'u hyfforddi fel cyflwynwyr a byddant yn parhau i fynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg er mwyn hyfforddi gwirfoddolwyr ac athrawon a sefydlu clybiau Tri-Golff.

Mae'n hanfodol sicrhau bod cyswllt cadarn yn cael eu ffurfio â chyfleusterau golff yn lleol er mwyn cynnig ffordd ymlaen i'r plant hynny sy'n dangos diddordeb yn y gêm.

Mae mentrau Tri-Golff wedi'u cynllunio nid yn unig er mwyn recriwtio ieuenctid i chwarae'r gêm, ond hefyd er mwyn gweithio tuag at amcan cais Cwpan Ryder. sef chwalu'r syniad bod golff yn gêm elitaidd.

4. <u>Gŵyliau sy'n denu'r Torfeydd</u> - mynd â'r gêm ar daith!

Cynhelir rhai digwyddiadau blynyddol ledled Cymru sy'n rhoi mynediad i niferoedd sylweddol o bobl ifanc, ac mae'n bosib nad yw'r mwyafrif o'r rheiny wedi cael y cyfle i roi cynnig ar golff fel gêm.

Sioe Frenhinol Cymru – mae dros 240,000 o bobl yn ei mynychu a rhwng 2002 a 2004 cafodd dros 3,000 o blant flas ar chwarae golff yn ystod y pedwar diwrnod – gan fynd â'r gêm i'r to iau na fyddai'n cael y cyfle fel arall o bosib.

Eisteddfod yr Urdd – mae cysylltiad da gyda chynllun Tri-Golff y sefydliad hwnnw. Mantais arall yw ei bod hi'n ŵyl symudol, a byddai ardaloedd gwahanol ac felly clybiau gwahanol yn elwa pob blwyddyn.

Mae'n hanfodol bod y clybiau sydd yng nghyffiniau'r digwyddiadau hyn yn darparu gwirfoddolwyr, nid yn unig i gynorthwyo i gyflwyno'r cynlluniau ond i greu cysylltiad rhwng y gweithgareddau a'r posibilrwydd y bydd y plant yn cymryd at y gêm o ddifrif.

5. <u>Gweithdy a Chynhadledd Arweinwyr Golff Iau</u>

Ni ellir sicrhau'r cynnydd arfaethedig yn nifer y to iau sy'n chwarae golff heb gymorth ymroddedig ac arbenigedd gwirfoddolwyr. Mae <u>Gweithdy Arweinwyr Golff Iau y Sefydliad Golff</u> yn gyfle gwych i gynyddu sgiliau ac ansawdd y trefnwyr iau presennol yn

ogystal â recriwtio er mwyn cynyddu eu niferoedd.

Y bwriad yw parhau i redeg o leiaf 10 o gyrsiau'n flynyddol, gan greu dros 100 o wirfoddolwyr hyfforddedig a chymwys bob blwyddyn.

Bwriedir gweithredu strwythur newydd addysg hyfforddwyr y SGP gydag o leiaf dau gwrs Lefel 1 yn rhedeg yn flynyddol ac mae'r gwaith o greu fformat ar gyfer strwythur Lefel 2 i wirfoddolwyr wedi dechrau.

Cynhadledd Arweinwyr Iau
Crybwyllodd UGC y syniad bod arbenigwyr 'allan ar y maes' yn dod at ei gilydd ar gyfer cynhadledd nôl yn 1997.
Gyda dros 400 o bobl wedi mynychu Gweithdai Arweinwyr Iau yn ystod y 3 blynedd diwethaf, nawr yw'r amser i ddatblygu'r syniad hwn ymhellach. Byddai angen i gynhadledd o'r fath gynnwys dwy elfen. Yn gyntaf, byddai angen mynd i'r afael â syniadau ar gyfer recriwtio aelodau newydd ac yn ail, ymdrin â materion sydd ynghlwm â datblygiad a pherfformiad y chwaraewyr iau presennol.

6. Datblygu Cyfleusterau Iau a Chronfa Cymynroddion

- Cyrsiau Iau ac Ardaloedd Ymarfer

Ystyriwch ysgol ddatblygu symliawn (a welir ar y dde), sy'n cynrychioli'r llwybr o fod yn ddechreuwr llwyr i lefel dda o handicap-



Yn anffodus, mae nifer o glybiau'n dioddef oherwydd nad oes ardal ymarfer neu gwrs byr ar gael ('Cwrs Iau' yn y diagram), lle gellir hyfforddi chwaraewyr iau a hogi eu sgiliau sylfaenol cyn iddyn nhw gael y dasg o chwarae ar y prif gwrs.
Heb gyfleusterau o'r fath, mae rhai o'r camau cyntaf ar yr ysgol ar goll ac mae hynny nid yn unig yn amharu ar gynnydd chwaraewyr iau, ond mae'r nifer sy'n rhoi'r gorau iddi hefyd yn cynyddu a gall hefyd effeithio ar y niferoedd sy'n dod i mewn i'r gêm yn y lle cyntaf.

Sportlot, y gronfa loteri ar gyfer chwaraeon yng Nghymru yw'r ffynhonnell amlwg ar gyfer cymorth ariannol i brosiectau o'r fath. Fodd bynnag, mae 'na gyfyngiadau sylweddol ar y gronfa hon ar adeg ysgrifennu hwn a byddai angen i unrhyw brosiectau ddangos yn glir eu bod yn rhai da cyn derbyn unrhyw gefnogaeth.
Tïau ar gyfer Chwaraewyr Iau
Mae'n bosib y bydd yna brinder lle ar rai cyrsiau ar gyfer datblygu cwrs yn benodol ar gyfer chwaraewyr iau, ond mae hi dal yn bosibl i ddarparu ar gyfer anghenion datblygu chwaraewyr iau trwy adeiladu tïau pwrpasol ar y prif gwrs.

Bydd Datblygu Golff Cymru yn parhau gyda'r polisi o ddarparu gwasanaeth pensaer golff nid yn unig ar gyfer cynhyrchu cynllun sylfaenol, cyffredinol ar gyfer unrhyw gyfleusterau o'r fath (gweler Atodiad 2) ond hefyd er mwyn cynnal astudiaethau dichonoldeb cychwynnol mewn nifer penodol o gyfleusterau bob blwyddyn.

- Cronfa Cymynroddion Cwpan Ryder

Ffurfiwyd cytundeb rhwng cyrff partneriaethol Cwpan Ryder Cymru, i ddefnyddio'r gronfa hon er mwyn datblygu cyrsiau mewn trefi ar draws Cymru.
Ffurfiwyd is-grŵp o Gwpan Ryder Cymru gyda'r bwriad penodol o ddatbygu'r syniad hwn ymhellach. Mae cynrychiolydd o Datblygu Golff Cymru ar y grŵp hwn a bydd yn cydweithio er mwyn ceisio sicrhau cynnydd yn y math hwn o gyfleuster.



7. Cystadleuaeth *Wee Wonders*

Er mwyn darparu llwybr cenedlaethol sy'n caniatau i fechgyn a merched symud ymlaen o raglenni hyfforddi i sialens a hwyl golff cystadleuol. Cystadleuaeth yn seiliedig ar fflagiau, lle mae'r chwaraewyr yn cael nifer penodol o ergydion er mwyn symud ymlaen cyn belled â phosibl o amgylch cwrs golff syml. Bydd llwyddiant tair blynedd cyntaf y fenter hon yn cael ei barhau mewn dull tebyg, ond mewn dull sydd â'r potensial i fod yn wahanol.

Derbynnir yn gyffredinol bod menywod a merched yn ymateb yn well i fformat sy'n rhoi llai o bwysau arnyn nhw ac sy'n fwy cymdeithasol; felly y bwriad yw datblygu rhyw fath o fformat *She Wonders* ar gyfer menywod sy'n ddechrau chwarae golff fydd yn cysylltu gyda menter 8 isod.

8. Cynlluniau ar gyfer Menywod a Merched

- Hyfforddiant Am Ddim i Fenywod sy'n Dechrau Chwarae Golff
  Cynllun sy'n cael ei ariannu gan DGC er mwyn cynyddu nifer y menywod sy'n chwarae'r gêm.
  Targedir cyflogwyr sydd â nifer fawr o weithwyr benywaidd (e.e. BBC Cymru) a chreu cyswllt rhyngddyn nhw â chyfleuster golff lleol er mwyn cynnig hyfforddiant cychwynnol am ddim. Yn dilyn yr hyfforddiant cychwynnol hwn am ddim, bydd y menywod yn cael cynnig hyfforddiant pellach am bris gostyngol gyda'r posibilrwydd wedi hynny o ymuno â chlwb/cyfleuster am bris ffafriol. Mae'r amseru ar gyfer cynlluniau o'r fath yn hanfodol – rhaid cychwyn y cyfnod hyfforddi mewn da bryd i'r menywod gael y profiad o chwarae golff yn ystod misoedd yr haf.

- Hyfforddiant am Ddim i Ferched sy'n Dechrau Chwarae Golff
  Yn debyg i'r uchod, ond wedi'i dargedu tuag at ysgolion cynradd yn hytrach na chyflogwyr. Bydd DGC yn ariannu'r gwersi i ddechreuwyr ac UDGM yn ariannu'r gwersi dilynol, ond bydd angen inni hefyd chwilio am gymorth trwy gyfrwng cynlluniau megis Merched yn Gyntaf a'r Gist Gymunedol.

  Mewn rhai achosion, bydd modd cyfuno'r cynlluniau i Fenywod a Merched yn un prosiect.

- Darparu Clybiau Golff i Fenywod
  Bydd DGC yn cynnal dwy storfa o glybiau 'iau' a chlybiau menywod i'w defnyddio yn y Cynllun Hyfforddiant am Ddim i Fenywod (yn y de a'r gogledd). Bydd y rhain ar gael i gyfleusterau sy'n rhedeg cynlluniau o'r fath ond sydd heb ddigon o gyfarpar eu hunain.
  Bydd cynllun o'r fath ar gyfer prynu'n ganolog yn sicrhau'r arbedion maint mwyaf.

9. Cynlluniau Eraill

- Cynllunio a chynnal Gwefan benodol ar gyfer golffwyr iau. Hefyd creu cyswllt â gwefannau iau a chlybiau eraill da sy'n dangos enghreifftiau o arfer dda.
- Sicrhau cyhoeddusrwydd addas ar gyfer rhaglenni iau (cysylltiadau â'r cyfryngau a.y.b.)
- Clwb y Flwyddyn – nid yn unig yn dadansoddi'r ddarpariaeth iau ond y ddarpariaeth yn gyffredinol hefyd.
- Diweddaru'r 'Cyfarwyddyd i Glybiau ar Golff Iau'
- Cynhyrchu eitemau hyrwyddo i'w defnyddio mewn Meysydd Ymarfer Golff ac wedi'u hamseru i gyd-fynd â phrif ddigwyddiadau megis y Bencampwriaeth Agored, Cwpan Ryder a'r Meistri.

Prif Amcan DGC 2	Gwell Golffwyr

- 10% o ostyngiad yn y Gyfartaledd Trawiad ar draws y oedran iau
- Gwella safon y sgwadiau a'r hyfforddiant yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru
- Sicrhau'r nifer fwyaf o gystadleuwyr mewn cystadlaethau domestig Sirol a'r prif gystadlaethau Cenedlaethol
- Sicrhau mwy o lwyddiant cyson ar lefel Ewropeaidd, amaturaidd a phroffesiynol fel ei gilydd

  Bechgyn – 8 Gorau Tîm Ewrop., Cymwys ar gyfer Campwriaethau Bechgyn y Byd
  Ieuenctid – 8 Gorau Tîm Ewrop. Dynion – 8 Gorau Tîm Ewrop.
  Merched – 5 Gorau Pencamp. Tîm Merched Ewrop. Menywod – 5 Gorau Tîm Ewrop.
- Cadw chwaraewyr yn y 3 safle gorau ar y Daith Ewropeaidd fesul pen y boblogaeth

10. <u>Cystadlaethau Addas</u>

- Wrth i nifer y merched gynyddu, bydd angen diwygio strwythur presennol y cystadlaethau domestig.
  Bydd agweddau cymdeithasol presennol sefydliadau megis Cymdeithas Merched De Cymru yn angenrheidiol o hyd, ac yn wir ni all y rhain ond cynyddu, ond bydd angen cynyddu'r strwythur ar gyfer cystadlaethau Sirol yn ogystal.
  Ar gyfer bechgyn, mae angen cystadlaethau swyddogol islaw'r lefel Sirol bresennol megis:
  - Cystadlaethau ychwanegol wedi'u trefnu o fewn ffiniau awdurdodau lleol, ar hyd yr un llinellau â chyngrair iau Caerfyrddin a ffurfiwyd yn ddiweddar
  - Cystadlaethau newydd rhwng y nifer cynyddol o Ganolfannau Cychwynnol (gan ddefnyddio handicapiau Gwobrau Teilyngdod fel canllawiau)
    Gellid ychwanegu cystadleuwyr at y fformat uchod hefyd o'r clybiau iau 'talu a chwarae' a ddynodwyd ym Menter 2 Amcan 1.

11. <u>Cynlluniau Hyfforddiant Sirol</u>

- Mae hyfforddiant cenedlaethol Dynion yn bwriadu cynnal seminarau gyda hyfforddwyr a swyddogion Sirol er mwyn sicrhau ymagwedd gyson tuag at hyfforddi chwaraewyr iau h.y. Datblygu Athletwyr dros Dymor Hir (LTAD)
- Mae pwyllgor Datblygu a Chyfathrebu UGC yn bwriadu ymchwilio i'r nawdd presennol ar gyfer hyfforddiant sirol ac argymell newidiadau.

12. <u>Strwythur Sgwad Cenedlaethol Iau newydd</u>

- Unwaith y bydd cynlluniau'r Amcan cyntaf yn dechrau cynhyrchu mwy o chwaraewyr iau, bydd angen cynyddu'r strwythur ar gyfer y sgwad cenedlaethol er mwyn darparu ar gyfer y chwaraewyr iau hynny sydd wedi cael mwy o gyfleoedd i gystadlu o ganlyniad i'r hyn a ddynodir ym menter 9.
  - Cyflwyno sgwad *Pee-Wee* ar gyfer rhai dan 12 oed gyda chyfleoedd cystadlu addas (2005)
  - Cyflwyno sgwadiau newydd i fechgyn dan 12 oed (2004/05) gyda gêm gynrychioladol yn erbyn un o siroedd Lloegr o bosib.

- Cynyddu cyfleoedd y sgwadiau D14, D16 a D18 presennol e.e. gemau cynrychioladol newydd.
- Mae system ACE (*Athlete Career & Education*) y Cyngor Chwaraeon wedi'i defnyddio a pharheir i'w defnyddio ar gyfer sgwadiau D18 a D16 – oherwydd fel arfer mae angen i chwaraewyr o'r oedran hyn wneud dewisiadau pwysig ynghylch eu gyrfa a'u haddysg.

13. Canolfannau Rhagoriaeth Rhanbarthol

(Manylion yn Atodiad 2)

Wedi'u datblygu mewn cydweithrediad â Sportlot, bydd y 5 ganolfan newydd hyn yn darparu cyfleusterau ymarfer a hyfforddi heb eu hail ar gyfer golffwyr o'r radd flaenaf yng Nghymru. Bydd y canolfannau yn cynnig cyfleusterau safonol a hyblyg ar gyfer ymarfer gemau byr trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys amser mynediad gwarantedig, nifer digonol o oriau a chyfarpar arbenigol dros ben (e.e. peli golff safon cystadlu). Mae'r datblygiad hwn yn rhan hanfodol o'r ymdrech i wella safon chwarae'r goreuon yn y maes.
Mae darpariaeth hyfforddiant dan do ar gyfer sgiliau gyrru a phytio'r bêl hefyd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod chwaraewyr yn gystadleuol o ddechrau'r tymor bob blwyddyn. Un o'r prif fuddiannau yw'r ffaith na fydd yn rhaid i ddynion, menywod, bechgyn a merched talentog deithio pellteroedd sylweddol er mwyn derbyn hyfforddiant o'r ansawdd orau mewn cyfleusterau o safon.

14. Academïau Ysgolion / Colegau

Mae nifer o sefydliadau Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach un ai'n cynnig neu'n ystyried cynnig y cyfle i fyfyrwyr gyfuno eu diddordeb mewn golff gyda phwnc academaidd o'u dewis.

Er mai cyfrifoldeb unrhyw sefydliad Datblygu Golff yng Nghymru yn y dyfodol yw hwn yn bennaf, mae profiad o brosiectau cynnar yng Ngholeg Penfro, Coleg Yale a Choleg Prifysgol Cymru yng Nghasnewydd yn awgrymu bod yna bosibilrwydd y gallai Datblygu Golff Cymru gynnig rhywfaint o gymorth yn hyn o beth;
Er enghraifft:

- Cynorthwyo i'w cysylltu gyda chyfleuster golff lleol a chynrychiolydd o'r SGP;
- Cyfle posib i sefydlu cysylltiadau gyda'r Canolfannau Rhagoriaeth Rhanbarthol arfaethedig.

15. Prifysgolion

Mae angen i Gymru sicrhau ei bod ar y blaen gyda golwg ar unrhyw ddatblygiadau sydd ynghlwm â chynllun bwrsari'r R&A.
Mae rhai prifysgolion yng Nghymru yn awyddus iawn i fanteisio'n llawn ar y potensial mae golff yn ei gynnig iddyn nhw yn nhermau denu myfyrwyr a chystadlu'n effeithiol mewn cystadlaethau rhyng-golegol.
Mae yr un mor bwysig i barhau i fod ar flaen y gad gyda golwg ar unrhyw newidiadau i a/neu estyniad i'r cynllun gradd newydd a gynigir ym Mhrifysgol Birmingham.

16 Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Hyfforddwyr

Gyda chymorth nawdd cynllun Hyfforddiant Cymru CChC, bydd y rhai a benodir i fod yn hyfforddwyr cenedlaethol yn parhau i wneud y canlynol:

- Datblygu rhaglenni hyfforddiant unigol

- Darparu addysg hyfforddiant
- Darparu cymorth hyfforddi i chwaraewyr sgwadiau
- Canfod chwaraewyr dawnus
- Cynorthwyo i ddatblygu a chefnogi strwythur hyfforddiant sirol UGC

17 <u>Mwy o Gyfleoedd i Gystadlu</u>

Yn ogystal â'r gemau domestig a rhyngwladol hir-sefydlog, parheir i drefnu mynediad i dwrnamentau a chystadlaethau ychwanegol.

Yn gyffredinol, mae'r cyfleoedd newydd hyn yn cynnwys 4 cystadleuaeth dramor ar gyfer bechgyn, 4 ar gyfer menywod a 2 ar gyfer merched.

Bydd yr hyfforddwyr cenedlaethol yn cynllunio rhaglen hyfforddiant tywydd twym (o fewn amgylchedd cystadleuol) ar gyfer nifer penodol o chwaraewyr fel ychwanegiad i'r rhaglen o gystadlaethau.

Mae Tlws Eisenhower ar gyfer y dynion yn cymryd lle bob yn ail flwyddyn, felly trefnir gwersyll ymgynefino yn ystod y flwyddyn wag mewn canolfan sy'n debyg i'r lleoliad ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Bydd tîm (2 fachgen a 2 ferch) yn dal i fynychu cystadleuaethau Meistri Ieuenctid Ewrop (*European Young Masters)*

18 <u>Cynhadledd Hyfforddiant ar gyfer y Goreuon</u>

Parheir i drefnu'r gynhadledd hon ar y cyd â'r SGP. Seminar hyfforddi ydyw gyda'r prif fwriad o wella dulliau cyfathrebu ac mae hefyd yn gyfle i ymgynghori ar drefniadau'r rhaglen berfformio ar gyfer y golffwyr gorau.

Yn gyffredinol, mae'n anelu at sicrhau fod pawb yn cydymffurfio gyda golwg ar hyfforddiant perfformiad.

Mae profiad ac adborth yn awgrymu bod galw mawr am weithdai ar agweddau ffisiolegol a seicolegol y gêm, ynghyd â chynnwys o natur mwy ymarferol.

Yn dilyn llwyddiant y digwyddiad yn 2002 a 2003, bydd yn cael ei ailadrodd bob yn ail flwyddyn.

- * Cafwyd y ffigwr ar gyfer Cyfleoedd Golffio trwy gyfrwng y canlynol:

<u>Bechgyn</u> - 157 o glybiau (75% yn weithgar gyda'r oedran iau). Cyfartaledd o 50 o fechgyn ymhob clwb. A chymryd bod 50% yn weithgar unwaith yr wythnos = 2,950 o gyfleoedd bob wythnos. A chymryd bod 40 wythnos o weithgarwch y flwyddyn = 118,000 o gyfleoedd.

<u>Merched</u> - 145 o glybiau (60% yn weithgar gyda'r oedran iau). Cyfartaledd o 5 o ferched ymhob clwb. A chymryd bod 50% yn weithgar unwaith yr wythnos = 218 o gyfleoedd bob wythnos. A chymryd bod 40 wythnos o weithgarwch y flwyddyn = 8,700 o gyfleoedd.

<u>Cynlluniau Merched</u> - 500 o ferched yn derbyn 6 gwers = 3,000 o gyfleoedd. A chymryd bod 50% yn mynd ymlaen i gael 6 gwers pellach = 1,500. Cyfanswm = 4,500.

<u>Cynlluniau Menywod</u> - 500 o fenywod yn derbyn 6 gwers = 3,000 o gyfleoedd. A chymryd bod 50% yn mynd ymlaen i gael 6 gwers pellach = 1,500. Cyfanswm = 4,500

Tri-Golff 150 o fagiau. A chymryd bod 30 plentyn i bob bag = 4,500. A chymryd bod 9 wythnos a weithgarwch = 40,500.

Digwyddiadau sy'n Denu'r Tyrfaoedd 6 digwyddiad y flwyddyn. Nifer o gyfleoedd ymhob digwyddiad ar gyfartaledd = 2,500. Cyfanswm = 15,000